OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1382

## Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 2

### Marchnata hadau a deunyddiau lluosogi planhigion: diwygio deddfwriaeth ddomestig

**Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017**

**2.** Yn Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**1**), yn rheoliad 5, yn lle paragraffau (3) a (4) rhodder—

> "(3) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi marchnata deunyddiau planhigion o unrhyw wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd os ydynt wedi eu bodloni bod y deunyddiau planhigion wedi eu cynhyrchu o dan amodau sy'n cyfateb i'r gofynion yn y Rheoliadau hyn ar gyfer deunyddiau planhigion."

(**1**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.